



ARGYFWNG Y FFOADURIAID

Ers gosod ceiswyr lloches yng Ngharchar Caerdydd yn 2001, mae Cytûn wedi datblygu partneriaethau pwysig sydd nawr ar waith:

- Prif Weithredwr Cytûn, Aled Edwards, yw Cadeirydd Partneriaeth Mudo Strategol Cymru dan nawdd y Swyddfa Gartref, sy'n ceisio sicrhau fod awdurdodau lleol, mudiadau'r trydydd sector a Llywodraeth Cymru yn cyd-weithio'n effeithiol parthed ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Trwy weithio gyda phartneriaid megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Displaced People in Action, Dinas Noddfa ac Asylum Justice, mae Cytûn wedi ceisio gwasanaethu'r eglwysi trwy sicrhau triniaeth anrhydeddus i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.
- Gofynnwyd i Cytûn, trwy Aled Edwards, gymryd rhan yn uwchgyhadledd ffoaduriaid Cymru a drefnwyd gan Brif Weinidog Cymru ar 17eg Medi a bydd yn cymryd rhan lawn yn y tasglu a fydd yn galluogi Cymru i groesawu ffoaduriaid o Syria.
- Anogwn ddatblygu cynulleidfaoedd y lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, rhai wedi eu hadeiladu ar ffoaduriaid Cristnogol a erlidiwyd cyn ymgartrefu yng Nghymru.
- Cefnogwn fentrau arloesol megis Canolfan y Drindod, Heol Casnewydd, Caerdydd, sy'n gwasanaethu cannoedd o geiswyr lloches yn wythnosol. Mae angen mawr am arian i ddiogelu'r adeilad. Gellir danfon rhoddion i "The Trinity Project" drwy John Elias, 2 Springhurst Close, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7EU.
- Cyd-weithiwn gyda Chomisiwn yr Eglwysi am Fudwyr yn Ewrop a Phwyllgor Cymru Cymorth Cristnogol, a hybu [Apêl Argyfwng Ffoaduriaid](#) Cymorth Cristnogol.
- Trefnu Gwylnos cyn gêm bêl-droed Cymru v Israel 6 Medi yn Eglwys S. Ioan Treganna.
- Gweithiwn yn agos gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid eraill i dynnu sylw at anghenion ceiswyr lloches a ddanfonir i Gymru gan y Swyddfa Gartref, sefyllfa ceiswyr lloches diymgeledd na ellir eu dychwelyd i'w gwledydd cartref, ac anghenion unigolion a ddiodefodd sydd angen triniaeth arbenigol – yn enwedig plant.
- Paratowyd gwasanaeth Cymraeg i bobl ifainc ar gyfer Sul yr Urdd ar 15fed Tachwedd, sydd ar gael ar [wefan yr Urdd](#). Mae gwasanaeth dwyieithog Sul Cyfiawnder Hiliol ar gael ar <https://ctbi.org.uk/racial-justice-sunday-2015>

Gweithgareddau yn y misoedd nesaf

- Gyda Chanolfan Addysg Gristnogol Oedolion Caerdydd, trefnodd Cytûn gyfarfod yn City United Reformed Church, Plas Winsor, Caerdydd am 7.30 ar **nos Wener 20fed Tachwedd** i ystyried sut orau y gall eglwysi ymateb i sefyllfa'r ffoaduriaid. Croeso i bawb. Trefnir cyfarfodydd tebyg ledled Cymru.
- Mae Bwrdd Cytûn yn gwahodd cymunedau ffydd a'r sawl sydd heb ffydd i nodi Diwrnod Hawliau Dynol trwy weddio ac ymrwymo i groesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Anogir grwpiau lleol i drefnu eu gweithgareddau eu hunain ar **Ragfyr 10fed**. Gobeithir trefnu gweithgareddau cyhoeddus yng Nghaerdydd a Wrecsam – gweler www.cytun.org.uk am fanylion wrth i'r trefniadau gael eu cadarnhau.

BIL CYMRU DRAFFT – CAMU ‘MLAEN NEU CAMU NÔL?

Yn ei ragair i'r [Bil drafft](#) a gyhoeddwyd ar 20fed Hydref, dywed Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Stephen Crabb, mai'r nod yw creu *setliad datganoli cryfach, cliriach a thecach i Gymru a fydd yn sefyll prawf amser*. Wrth wneud datganiad i'r Cynulliad, dywedodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, ac arweinwyr Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, fod y drafft yn bygwth nifer o bwerau presennol y Cynulliad. Pwy felly sy'n iawn?

Rhaid cyfaddef nad yw'r Bil na'r Memorandwm Esboniadol yn llwyddo i fod yn *gliriach*. Cyfeirir at 70 o Ddeddfau Seneddol y byddai angen eu darllen er mwyn cael darlun cyflawn o bwerau'r Cynulliad, a dim ond arbenigwr allai wneud hynny. Rhaid ofni y byddai dadleuon cyfreithiol yn digwydd yn amlach yn hytrach nag fel arall.

Cytunodd pob plaid eisoes y byddai'r setliad cyfansoddiadol yn well o'i droi o fodel 'dyrannu pwerau' i fodel 'cadw pwerau' – h.y. yn hytrach na rhestru beth allai'r Cynulliad ei wneud, byddid yn rhestru beth oedd yn gyfrifoldeb i San Steffan, gyda phob dim arall wedi'i ddatganoli. Dyna'r drefn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ond yn y drafft hwn, fe gedwir yn San Steffan bwerau ar feysydd eang, gyda rhestr o eithriadau – hynny yw patrwm 'dyrannu pwerau' wedi'i arall eirio yw hwn. Fe welir effaith hyn yn fwyaf eglur wrth i San Steffan gadw grym dros y gyfraith droseddol, cyfraith breifat a chosbau sifil (Atodlen 2), gydag eithriadau wedi'u diffinio'n gul. Yn amlach na pheidio, fe ymddengys y byddai angen caniatâd gweinidog San Steffan ar y Cynulliad cyn deddfu, neu ni allai wneud o gwbl. Barn cyfreithwyr Llywodraeth Cymru (mewn [papurau a gyhoeddwyd](#) gan y Gweinidog Cyntaf) yw y byddai 14 o 19 Deddf a gyflwynwyd i'r Cynulliad naill ai wedi gofyn am ganiatâd ychwanegol gan San Steffan, neu ni ellid bod wedi eu cyflwyno o gwbl.

Mae'r Bil Drafft hefyd yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru dros gyrff llywodraethol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, heb gael caniatâd gweinidogion San Steffan. Byddai pob corff nad oedd yn gwbl Gymreig ei diriogaeth ac yn bennaf ddatganoledig ei faes yn dod dan reolaeth San Steffan, onibai fod y Gweinidog priodol yn Llundain yn rhoi caniatâd. Byddai hyn yn cyfyngu ar bwerau fu gan y Cynulliad oddi ar gychwyn datganoli ym 1999.

Mae dadansoddi union effaith hyn yn fater technegol gyfreithiol, ac mae yna anghytundeb rhwng cyfreithwyr Swyddfa Cymru a chyfreithwyr Llywodraeth Cymru. Ond wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Cymru yn San Steffan ar 26ain Hydref, fe nododd Mr Crabb a'i swyddogion eu bod wedi achub ar y cyfle i gau bylchau yn y setliad presennol, ac y byddai peth cyfyngu ar bwerau presennol y Cynulliad. Credai ei swyddogion y byddai 20 o'r 25 Deddf a Mesur a basiwyd hyd yma gan y Cynulliad wedi gallu cael eu pasio heb ganiatâd ychwanegol dan y setliad newydd – ond byddai 5 o'r 25 felly wedi bod angen caniatâd ychwanegol gan weinidogion San Steffan neu wedi gorfod bod yn gulach eu cwmpas er mwyn cael eu derbyn. Nododd y byddai gweinidogion San Steffan fel arfer yn rhoi caniatâd i ddeddfu, ond soniodd hefyd am enghreifftiau lle na fyddai hynny'n wir. Yn benodol, gresynnai Stephen Crabb fod dwy ddeddf Cynulliad wedi gosod dyletswyddau ar yr heddlu heb ganiatâd San Steffan, a byddid yn cau'r bwch hwnnw.

Achubodd Mr Crabb hefyd ar y cyfle i gyfeirio at "how messed up politics in Cardiff Bay is" a dweud fod Carwyn Jones, wrth gyfeirio at "weinidogion Lloegr", yn ceisio tanseilio hygrededd llywodraeth y DU.

Mae Cytûn yn gofidio am effaith y dadlau a'r drafftio ar hygrededd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel deddfwrfa etholedig, ac yn gobeithio y gall yr eglwysi a chymdeithas sifil Cymru chwarae rhan adeiladol wrth dorri'r ddadl a chyrraedd setliad a fydd yn cwrdd ag addewidion y ddwy lywodraeth, a dymuniad etholwyr Cymru a bleidleisiodd yn refferendwm 2011 dros y *Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar bob mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb Senedd y DU*.

ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOLION CYMRU

Yn y Gynhadledd Addysg Genedlaethol yng Nghaerdydd ar 22ain Hydref, fe lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, raglen ymgynghori parthed gweithredu argymhellion Adolygiad Donaldson am gwricwlwm ysgolion Cymru. Roedd yna gynrychiolaeth o eglwysi Cytûn yn bresennol. Amlinellir y broses weithredu yn [Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes](#) a bydd yn canoli ar ysgolion arloesi a fydd yn arbrofi gyda'r fframwaith cwricwlwm newydd. Ni chafwyd trafodaeth benodol am Addysg Grefyddol nac ysgolion ffydd yn y ddogfen nac yn y gynhadledd, ond mae'n amlwg mai bwriad y Gweinidog yw y bydd y cwricwlwm yn cwmpasu pob pwnc a phob ysgol. Mae eglwysi Cytûn yn parhau i drafod gyda'r Llywodraeth.

CREFYDD A CHRED MEWN CYFRAITH CYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi [Review of equality and human rights law relating to religion or belief](#) gan Peter Edge a Lucy Vickers, Prifysgol Brookes Rhydychen. Mae eu gwaith yn adolygu dehongli ac effeithiolrwydd y fframwaith ddeddfwriaethol Brydeinig bresennol. Mae'n awgrymu nifer o feysydd i'w hystyried ymhellach:

- Diffinio "cred", yn enwedig yn y ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r diffiniad eang a ddefnyddir gan y llysoedd ar hyn o bryd yn aneglur, yn enwedig parthed systemau cred sy'n seiliedig ar dystiolaeth wyddonol. Mae hyn yn arwain at ddyfarniadau anghyson yr olwg, yn enwedig yn y Tribiwnlys Cyflogaeth. Aneglur hefyd yw'r berthynas rhwng "crefydd" a "chred".
- Mae'n aneglur beth yw effaith rhai materion a brofwyd ar lefel Ewropeaidd ar gyfraith Prydain. Er enghraifft, er gwaethaf dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop yn achos *Eweida & Ors v United Kingdom*, (achos croes British Airways) mae'n parhau'n aneglur a fyddai angen i unigolyn sy'n dwyn achos ddod o hyd i grŵp o bobl sy'n rhannu ei gredöau/chredöau, ac os felly faint ohonyn nhw.
- Prif ffocws yr achosion hyd yma fu perthynas y cyflogai crefyddol a'r cyflogwr. Prin yw'r achosion parthed y *cyflogwr* crefyddol a'r darparwr gwasanaethau sy'n grefyddol, ond fe all hwn fod yn faes arwyddocaol.

Mae'r awduron yn awgrymu y gellid dilyn llwybr gwahanol trwy gyflwyno trefn debyg i hawl presennol cyflogaeth i ofyn am weithio oriau hyblyg. Byddai'r drefn arfaethedig yn cwmpasu materion parthed crefydd neu gred yn y gweithle nad ydynt yn rhan o'r hawl presennol i wneud cais, megis gwisgoedd. Bydd y Comisiwn nawr yn paratoi ymateb.

Churches' Legislation Advisory Service (CLAS)

CREFYDD YNG NGHYMRU – FFIGURAU CYFRIFIAD 2011

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [dadansoddiad o ffigurau cyfrifiad 2011 parthed crefydd](#). Ymysg yr uchafbwyntiau mae:

- Cristnogaeth yw'r brif grefydd yng Nghymru o hyd, er i'r gyfran sy'n ei harddel leihau'n sylweddol (o 71.9% i 57.6%) er 2001.
- Mae'r nifer o Fwslimiaid, Bwdhyddion a Hindŵiaid wedi dyblu mwy neu lai er 2001.
- Mae tua hanner y Mwslimiaid, Hindŵiaid a Siciaid yn byw yng Nghaerdydd
- Bu cynnydd sylweddol (o 18.5% i 32.1%) er 2001 yn y niferoedd yng Nghymru sy'n dweud nad ydynt yn arddel unrhyw grefydd.
- Gwelwyd newidiadau tebyg yn Lloegr, ond nid i'r un graddau.

Bydd y Fforwm Cymunedau Ffydd yn trafod y ffigurau hyn gyda Phrif Weinidog Cymru yn eu cyfarfod ar 2il Tachwedd.

STRATEGAETH GWRTH-EITHAFIAETH

Cyflwynodd Llywodraeth y DU [strategaeth gwrth-eithafiaeth](#) newydd ar 19eg Hydref. Roedd y Llywodraeth eisoes wedi cyflwyno [dyletswydd Atal newydd](#) er mwyn ei gwneud yn amlwg bod angen i bob awdurdod lleol, ysgol, prifysgol neu goleg, sefydliad GIG, heddlu, gwasanaeth prawf a charchar gymryd camau i rwystro pobl rhag cael eu tynnu i derfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sydd wedi eu datganoli yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth y DU yn comisiynu adolygiad i'r graddau y mae cyfraith *shari'a* yn cael ei chamddefnyddio neu ei chymhwyso mewn ffyrdd sy'n anghyson â chyfraith Prydain. Disgwylir adroddiad cychwynol i'r Ysgrifennydd Cartref yn 2016.

Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad llawn i sicrhau fod pob sefydliad wedi'i warchod rhag peryglon eithafwyr yn sleifio i mewn, yn adrodd yn 2016 wedi edrych ar draws y sector gyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, colegau addysg uwch ac addysg bellach, awdurdodau lleol, y GIG a'r gwasanaeth sifil. Bydd gwaith ymgodymu â'r ideoleg yn parhau i herio dadleuon eithafol a gwendid sylfaenol ideoleg eithafol, hybu credöau amgen cadarnhaol a chefnogi pobl ifainc bregus.

Er mwyn mynd i'r afael â gofidiau am ysgolion ychwanegol, bydd yr Adran Addysg yn Lloegr yn cyflwyno trefn newydd i ymyrryd mewn sefydliadau addysg heb eu rheoli sy'n cynnig addysg ddwys i blant, os oes yna ofidiau am ddiogelwch neu les y plant sydd yn eu mynychu, gan gynnwys gofidiau parthed eithafiaeth. Bydd hyn yn darparu ar gyfer cofrestru'r lleoliadau hyn er mwyn eu harchwilio a chyflwyno cosbau priodol er amddiffyn plant. Nid yw'n eglur yn y ddogfen a fydd y drefn hon yn cwmpasu Cymru ai peidio.

Bydd y Bil Gwarchod Elusennau a Buddsoddi Cymdeithasol yn creu pŵer newydd i'r Comisiwn Elusennau ddadgymhwyso ymddiriedolwyr pan allai eu hymddygiad – *yn y gorffennol neu yn bresennol* – niweidio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn elusennau. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cryfhau rôl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i alluogi cyflogwyr i gael gwybod am eithafwyr a'u rhwystro rhag gweithio gyda phlant a phobl fregus eraill.

Fe gyflwynir grymoedd newydd i wahardd mudiadau eithafol, cyfyngu ar weithrediadau niweidiol yr unigolion eithafol mwyaf peryglus a rhwystro mynediad i fangreoedd a ddefnyddir drosodd a thro er hybu eithafiaeth (Extremism Disruption Orders). Ni ddefnyddir y pwerau newydd yn erbyn syniadau a goleddir yn breifat na phobl sy'n mynegi eu daliadau crefyddol (para 113) – ond mae nifer o grwpiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd eisoes wedi mynegi'r farn nad yw'r eithriad hwn yn ddigon eang ac y gellid creu trafferthion i bobl sy'n mynegi barn sy'n dderbyniol o fewn eu crefydd. Gweler, er enghraifft, sylwadau'r Gynghrair Efengylaidd [yma](#).

Dywed y Llywodraeth, *"The Department for Communities and Local Government is ... commissioning a new programme of support to help faith institutions to establish strong governance. The programme aims to strengthen and support places of worship of all faiths in order to improve governance, increase their capacity to engage with women and young people, challenge intolerance and develop resilience to extremism. The programme will provide training on key issues alongside support for faith institutions facing specific challenges. It is not government's role to regulate faith leaders, but government does have a responsibility to ensure that those working in the public sector are suitably trained. The Government will therefore work in partnership with faith groups to review the training provided to those who work as faith leaders in public institutions"* [para 86-87].

Mae paragraffau 127-8 yn pwysleisio gwerth yr iaith Saesneg o ran cydlyniad cymdeithas. Awgrymir, felly, mai lleihau cydlyniad cymdeithasol mai ieithoedd eraill.

ADDOLDAI HANESYDDOL

Mae ACau wedi trafod problem addoldai hanesyddol sy'n sefyll yn segur yn eu hetholaethau sawl gwaith yn ystod y mis. Ar 20fed Hydref, fe gymeradwyodd sesiwn lawn y Cynulliad egwyddorion [Bil yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\)](#) ac ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol amdano.

Dywedodd Ken Skates, y Dirprwy Weinidog sydd â gofal y Bil, na fydd yn ceisio cynnwys yn y Bil hwn gosbau ariannol i berchnogion adeiladau hanesyddol sy'n eu hesgeuluso, ond fe fyddai'n ymgynghori ac ystyried deddfu am hyn yn y dyfodol. Gwrthododd hefyd argymhelliad y Pwyllgor y dylid ychwanegu at drefn bresennol 'Adeiladau Rhestredig' drefn statudol newydd o 'restrï lleol' a fyddai'n gwarchod adeiladau nas rhestrir ar hyn o bryd, ond yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd lleol. Fe wrthododd hyn ar sail cost, a derbyniodd y dadleuon gyflwynwyd gan eglwysi Cytûn ac eraill y gallai rhestrï lleol o'r fath rwystro ceisiadau rhesymol i addasu adeiladau fel y gellid parhau i'w defnyddio, neu eu troi at bwrpasau manteisiol i'r gymdeithas (megis cartrefi fforddiadwy). Fe fydd gan awdurdodau lleol ryddid i sefydlu rhestr leol, ond bydd raid iddynt dalu am hynny eu hunain.

Cyfeiriodd sawl AC at yr angen am fwy o hyblygrwydd yn y broses caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig, fel y gwarchodir yr adeiladau pwysicaf oll (efallai trwy sefydlu "perchennog wrth gefn" a allai gamu mewn i'w hachub), ond caniatáu i adeiladau hanesyddol eraill gael eu haddasu. Mae Cytûn wrthi o hyd yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a chydag ACau sydd yn ymddiddori yn y materion hyn er mwyn cymhwyso egwyddorion felly i addoldai hanesyddol yn benodol, yn y ddeddfwriaeth ac yn yr arweiniad a'r polisïau eraill a gyhoeddir gan Cadw.

GOHIRIO DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

Ar yr un diwrnod, fe basiodd y Cynulliad [Bil Llywodraeth Leol](#) (Cymru), sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer diwygio awdurdodau lleol yng Nghymru. Ond, er mwyn cael cefnogaeth Plaid Cymru, fe gytunodd y llywodraeth na fyddai gwaith ar ad-drefnu yn dechrau cyn yr etholiad. Bydd yn fater i Lywodraeth newydd Cymru, felly, a etholir ym Mai 2016, benderfynu sut i fynd ati i ad-drefnu llywodraeth leol. Mae Prif Weinidog Cymru wedi nodi hefyd y gallai Llywodraeth nesaf Cymru newid y drefn etholiadol ar gyfer cynghorau lleol i drefn fwy cyfrannol, fel y mae rhai gwrthbleidiau am ei wneud.

'DATGANOLI' MASNACHU AR Y SUL

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd ei chynigion i ddatganoli'r grym i ehangu (ond nid cwtogi) oriau masnachu ar y Sul i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn cael ei gynnwys yn y [Cities and Local Government Devolution Bill](#). Mae'r Bil hwn eisoes wedi gorffen ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi heb y cymal hwn, felly ni fydd yr Esgobion (na'r Arglwyddi eraill) yn cael dylanwadu ar y cymal hwn. Ond bu raid gohirio cyflwyno'r gwelliant oherwydd gwrthwynebiad nifer o ASau Ceidwadol.

Ymatebodd Cytûn i'r ymgynghoriad ar y mater hwn ar ran ein haelod eglwysi trwy ddweud fod yr ad-drefnu arfaethedig ar lywodraeth leol yng Nghymru yn golygu mai amhridiol fyddai datganoli i awdurdodau lleol ar hyn o bryd, ac y dylid datganoli cyfrifoldeb llawn dros oriau masnachu ar y Sul (nid yr hawl i'w hehangu yn unig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, allai wedyn ymgynghori ag awdurdodau lleol am y maes hwn.

Fe dderbyniwyd yn y lle cyntaf sicrwydd gan y gweinidog priodol yn San Steffan y byddai'n ymgynghori ymhellach gydag eglwysi Cymru, ond ni chlywsom ddim pellach hyd yma.

DYFODOL Y BBC

Mae Cytûn wedi ymateb ar ran ein haelodau i ymgynghoriad Llywodraeth y DU am adnewyddu siarter y BBC. Mae'r ymateb yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gwasanaethau'r BBC o ran dilyn hynt a helynt y sefydliadau datganoledig yng Nghymru, a phortreadu bywyd Cymru i Gymru, y DU a'r byd. Mae Llywodraeth San Steffan wedi mynegi gofid fod y BBC yn dominyddu ambell sector o'r farchnad ac yn rhwystro gofod cystadleuwyr o'r sector preifat. Ein barn ni yw mai'r unig enghraifft o hynny yng Nghymru yw effaith gwefannau lleol y BBC ar y wasg leol. Fel arall, mae'r BBC yn llenwi bylchau sy'n deillio o fethiant y farchnad i ddarparu gwasanaeth digonol yn y Gymraeg, y Saesneg nac ieithoedd eraill, ac y dylid yn wir ehangu'r BBC yng Nghymru yn hytrach na'i gwtogi.


Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn cynnal Archwiliad ehangach o'r Cyfryngau yng Nghymru, ac fe gyhoeddir y canlyniadau yn Uwch-gynhadledd y Cyfryngau ar 11eg Tachwedd. Ceir manylion pellach ar [wefan IWA](#).

TLODI YNG NGHYMURU

Bu trafodaeth fywiog yn y Cynulliad ar 14eg Hydref am adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am dlodi yng Nghymru, ac ymateb Llywodraeth Cymru. Gallwch eu darllen [yma](#). Mynegodd Aelodau ar draws y pleidiau ofid am y cynnydd mewn tlodi yng Nghymru, a'r bwlch sy'n lledu rhwng Cymru a rhannau eraill y DU. Derbyniwyd mwyafrif yr argymhellion gan y Llywodraeth, ond 'mewn egwyddor' yn unig yn achos nifer ohonynt. Nid oedd y Gweinidog, Lesley Griffiths, am sefydlu Cynghrair Lleihau Tlodi yng Nghymru, yn dwyn ynghyd y trydydd sector, y Llywodraeth a phobl dlawd eu hunain, gan gredu fod cyrff eraill eisoes yn galluogi trafodaeth o'r fath.

CAMDDEFNYDDIO ALCOHOL A CHYFFURIAU

Ar 21ain Hydref, cynhaliodd y Cynulliad drafodaeth ofalus am gamddefnyddio alcohol a chyffuriau yng Nghymru, yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac ymateb y Llywodraeth. Gellir eu darllen yn eitem 5 [yma](#). Bydd yr adroddiad a'r drafodaeth yn bwydo i'r cynllun gweithredu ar gyfer dwy flynedd olaf (2016-18) [Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed](#), y strategaeth camddefnyddio sylweddau. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymgynghori ar hyn o bryd am [ddefnwriaeth ddrafft i gyflwyno isafbris ar gyfer gwerthu alcohol](#), polisi a feirniadwyd gan sawl AC yn y drafodaeth am gynyddu elw'r cwmnïau alcohol tra'n gwneud fawr ddim i leihau'r defnydd ohono. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymgynghori am gynllun i [reoli economi'r nos](#) yng Nghymru. Mae Cytûn yn gofyn i Fugeiliaid y Stryd, Angylion y Stryd a grwpiau tebyg ymateb i hwn, a bydd Cytûn hefyd yn ymateb – sylwadau at Gethin erbyn **30ain Tachwedd**, os gwelwch yn dda.



CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk  [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)



Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 30ain Hydref 2015.

Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar 25ain Tachwedd 2015.